# CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

## ADRODDIAD I'R PWYLLGOR DEDDFAU

## Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Peiriannau a Pheirianwaith) (Cymru) 2000

### Y Cefndir

Mae paragraff 2 o Atodlen 6 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn cynnwys darpariaeth ynglyn â'r dull sydd i'w ddefnyddio wrth asesu gwerth ardrethol tir ac adeiladau annomestig.

Mae paragraff 2(8) o Atodlen 6 yn caniatáu i'r Cynulliad wneud rheoliadau sy'n rhagnodi, mewn perthynas â'r darpariaethau uchod, yr hyn sydd i'w dybio yn y broses werthuso. Mae'r tybiaethau hynny i fod yn gymwys i unrhyw ddosbarthiadau o hereditament a ragnodir yn y rheoliadau.

Mae'r rheoliadau presennol yn nodi'r tybiaethau mewn perthynas â hereditamentau sy'n cynnwys peiriannau a pheirianwaith.

Dylid tybio bod y peiriannau a'r peirianwaith a ddisgrifir yn benodol yn y rheoliadau yn rhan o'r hereditament, a dylid tybio nad yw unrhyw beiriannau neu beirianwaith eraill yn effeithio ar werth yr hereditament.

### Rheol Sefydlog 11.5

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

Serch hynny, mae rhai sylwadau cyffredinol y bernir y dylid tynnu sylw'r Cynulliad atynt.

### Sylwadau ar y Rheoliadau

### Y Nodyn Esboniadol

Byddai o gymorth i'r darllenydd pe bai hwn yn cael ei rannu'n baragraffau. Mae'n ymddangos y byddai tri pharagraff yn bosibl.

Dim ond at un o'r ddwy dybiaeth ragnodedig y mae'r nodyn yn cyfeirio hy y dybiaeth sydd i'w

gwneud ynghylch peiriannau a pheirianwaith y tybir eu bod yn rhan o hereditament. Byddai o gymorth pe bai'r nodyn yn cyfeirio hefyd at y dybiaeth y mae'n ofynnol ei gwneud, sef nad yw peiriannau a pheirianwaith eraill yn effeithio ar brisio'r hereditament (rheoliad 2(b)).

**Y Dyddiad Gwneud**

Yn achos offerynnau sy'n cael eu gwneud o dan y weithdrefn frys, dylid rhoi dyddiad eu gwneud ar y copi sy'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Deddfau.

**Rheoliad 2**

Mae'r pwer i wneud rheoliadau ym mharagraff 2(8) o Atodlen 6 i Ddeddf 1988 yn darparu i'r rheoliadau bennu dosbarthiadau rhagnodedig o hereditament y mae'r tybiaethau rhagnodedig i fod yn gymwys iddynt.

Y rhai a ddisgrifir ym mharagraffau (a) a (b) o reoliad 2 yw'r hereditamentau a ragnodir. Er hynny, buasai'n gliriach pe buasai geiriau agoriadol rheoliad 2 wedi dangos yn benodol fod dosbarthiadau o hereditament yn cael eu rhagnodi fel ym mharagraffau (a) a (b).

Gan fod paragraffau pellach wedi'u mewnosod i ychwanegu at is-baragraffau (1) i (7) o baragraff 2 o Atodlen 6 i Ddeddf 1988, buasai cynnwys troednodyn yn nodi'r ddeddfwriaeth ddiwygio wedi bod o gymorth.

Y cyfan y mae paragraffau (a) a (b) yn ei ddweud yw beth yw'r tybiaethau rhagnodedig. Serch hynny, nodir bod y ddarpariaeth alluogi wedi'i geirio fel a ganlyn–

> "(8) … may make regulations providing that … prescribed assumptions are to be made."

Buasai'n gliriach felly pe buasai paragraffau (a) a (b) wedi cynnwys darpariaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r tybiaethau rhagnodedig "gael eu gwneud".

**Yr Atodlen**

Sylwir o'r nodyn esboniadol fod hyn yn deillio o Bwyllgor Ymgynghorol a gynhaliodd adolygiad er mwyn cysoni'r ddarpariaeth ledled y DU.

Er gwaethaf hynny, credir ei bod yn briodol tynnu sylw'r Cynulliad at y ffaith nad yw drafftio drwy restri manwl ac amrywiol o'r fath yn cydymffurfio'n gyffredinol â dulliau modern o ddrafftio

deddfwriaeth. Yn ychwanegol, nodwyd bod nifer o'r eitemau o beiriannau a pheirianwaith y cyfeiriwyd atynt yn yr Atodlen yn ymddangos fel petai eu bod yn berthnasol i oes gynt o ddiwydiant trwm a bwerwyd gan stêm. Yn benodol, mae yna anhawster bob amser nad yw rhestri o'r fath byth yn gyflawn.

Ar wahân i'r pwynt hwn, er y deellir bod ffurf yr Atodlen yn dilyn yr hyn a ddefnyddir yn y rheoliadau cyfatebol yn Lloegr, credir bod y drafftio yn anos nag y mae ei angen e.e.

> rhestri maith o eithriadau a rhestri maith o ddiffiniadau cymhleth o fewn Dosbarthiadau,
>
> Dosbarthiadau drwy gyfeirio at Dablau sy'n mynd y tu hwnt i'r Dosbarthiadau, mewn rhai achosion,
>
> cynnwys "Ategolion" drwy gyfeirio at restr sy'n mynd y tu hwnt i Ddosbarthiadau.
>
> Diffiniadau o fewn paragraffau ac, mewn rhai achosion, diffiniadau o fewn diffiniadau.

**M. GERMAN OBE AC**
**Cadeirydd Y Pwyllgor Deddfau**

11 Ebrill 2000